

Gwybodaeth Feddygol Amddiffyn Plant i Rieni a Gofalwyr

Pam mae angen Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant ar eich plentyn?

Mae eich plentyn yn cael ei weld gan y meddyg heddiw oherwydd bod rhywun yn poeni amdano. Gallai hyn fod oherwydd anaf, digwyddiad neu rywbeth maen nhw wedi'i ddweud. Mae'n ffordd o chwilio am anafiadau neu broblemau meddygol a allai fod angen ymchwilio ymhellach iddynt.

Beth sy'n digwydd yn yr Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant?

Bydd angen i chi gydsynio cyn i'ch plentyn gael ei weld. Bydd y meddyg yn egluro beth sy'n mynd i ddigwydd. Dylech chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych chi iddyn nhw.

Bydd meddyg plant yn gofyn am fywyd ac iechyd eich plentyn ac unrhyw anafiadau sydd ganddo. Mae'n bosibl y bydd angen iddyn nhw siarad â phobl eraill sy'n gofalu am eich plentyn. Yn aml, bydd plant yn siarad â'r meddyg ar eu pen eu hunain.

Bydd eich plentyn yn cael archwiliad trylwyr am unrhyw broblemau meddygol neu anafiadau. Bydd unrhyw farciau'n cael eu mesur, a gellir tynnu lluniau gyda'ch caniatâd. Bydd y lluniau hyn ar gyfer nodiadau'r meddyg.

Os bydd angen profion, bydd y rhain yn cael eu hesbonio i chi. Gallai'r rhain gynnwys profion gwaed a phelydrau-X o'r esgyrn a'r pen. Mae'n bosibl y bydd meddyg yn edrych yn llygaid eich plentyn hefyd. Bydd angen mwy o belydrau-X ar rai plant ymhen 11-14 diwrnod. Os yw hynny'n wir, bydd unrhyw gymorth yn y cartref yn parhau am y cyfnod hwn. Bydd y nifer lleiaf posibl o sganiau yn cael eu gwneud. Gallwch ofyn i'ch meddyg am fwy o fanylion.

Bydd yr adolygiad meddygol yn cymryd ychydig oriau. Mae'n bosibl na fydd profion yn cael eu gwneud ar yr un diwrnod a gall y canlyniadau gymryd amser. Os bydd angen i chi aros yn yr ysbyty, gall hyn gymryd ychydig ddyddiau. Nid yw profion yn cael eu cynnal ar y penwythnos fel arfer.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd cyfarfod i gynllunio beth sy'n digwydd nesaf. Gall yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad y cyfarfod hwn.

Bydd y meddyg yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y timau eraill sy'n gysylltiedig (Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu). Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad unrhyw brofion.

Rydym yn gwybod y gall y broses Amddiffyn Plant achosi straen. Siaradwch â'r tîm os oes angen help arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Profion y gallai fod eu hangen ar eich plentyn



Archwiliad Cyffredinol

Bydd eich plentyn yn cael archwiliad o'i gorun i'w sawdl. Bydd unrhyw farciau'n cael eu mesur. Gellir tynnu lluniau gyda'ch caniatâd.



Profion gwaed

Mae'n bosibl y bydd angen profion gwaed ar eich plentyn i chwilio am arwyddion o broblemau meddygol.



Prawf llygaid

Mae'n bosibl y bydd meddyg yn edrych i lygaid eich plentyn. Mae'n bosibl y bydd yn defnyddio diferion i wneud kannwyll y llygad yn fwy. Bydd yr effaith yn diflannu mewn ychydig oriau.



Arolwg ysgerbydol

Cyfres o belydrau-X o'r corff yw hyn. Mae'n cymryd tua hanner awr. Bydd angen ail sgan ymhen 11-14 diwrnod a bydd unrhyw oruchwyliaeth yn parhau tan hynny.



Sgan CT o'r pen

Pelydr-X manwl o ben eich plentyn yw hyn. Mae'n gyflym ac nid yw'n boenus.